Canllawiau Myfyrwyr ar Ddidwylledd Academaidd

Peidiwch â difetha eich gyrfa cyn iddi gychwyn…

Ys dywed yr hen air: **a wnêl dwyll ef a dwyllir**. Y mae pawb, o leiaf unwaith yn eu bywyd, wedi clywed "dim ond dy dwyllo dy hunan wyt ti" drwy dorri'r rheolau. Er hynny, y mae twyllo yn digwydd yn y Brifysgol. Y mae ymarfer annheg (fel y'i gelwir yn swyddogol) yn digwydd mewn traethodau, arholiadau a thraethodau estynedig ond ym Mhrifysgol Caerdydd nid yw'n cael ei oddef o gwbl.

Nawr 'te, efallai eich bod yn meddwl eisoes nad yw hyn yn berthnasol ichi. Yn fwy na thebyg nid ydych chi'n rhywun a fyddai'n cyflwyno gwaith sy'n gynnyrch ymarfer annheg. Ond y mae'r rhan fwyaf o lawer o enghreifftiau o ymarfer annheg yn digwydd yn ddiarwybod i'r unigolyn. Dylech nodi, fodd bynnag, **y bydd eich arholwyr yn cymryd camau pellach p'un a oedd yr ymarfer annheg yn fwriadol ai peidio.** Bydd disgwyl ichi lofnodi ar ryw adeg eich bod yn deall y rheoliadau sy'n ymwneud ag ymarferion annheg. Bwriad y daflen hon yw sicrhau eich bod yn deall y rheoliadau hyn ac nad ydych yn eu torri. Bydd hefyd yn dweud wrthych sut mae defnyddio troednodiadau a sut mae cydnabod ffynonellau fel y byddwch, erbyn gorffen darllen hwn, ar ben y ffordd i gael traethawd a thechneg arholiad berffaith ynghyd â chael gradd dda!

---

1. Bywydau o Dwyll yr Enwog a'r Cefnog

(Achos eich bod yn gefnog ac enwog peidiwch â chredu y gellwch lwyddo trwy dwyllo)

Cyn ichi ddarllen beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud yn y byd academaidd efallai y bydd o ddiddordeb ichi fod llên-ladrata yn digwydd tu allan i'r Brifysgol hefyd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae nifer o bobl amlwg wedi eu dal yn honni mai eu gwaith hwy eu hunain oedd gwaith pobl eraill.

Robbie Williams

Yn wir, daethom i ddeall fod mab enwocaf Stoke-on-Trent wedi cael ei ddal yn llên-ladrata. Ar *I've Been Expecting You*, albwm a mynd mawr iawn arno, daeth hi'n amlwg fod ei drac '*Jesus in a Camper Van'* wedi ei godi fwy neu lai o drac Loudon Wainwright III '*I Am The Way'*. Gorchmynnwyd Robbie i dynnu'r trac oddi ar bob copi o'i albwm o hynny allan, a hynny'n costio'n ddrud ac yn embaras iddo hefyd.
[y we] <URL http://www.mtv.com/news/articles/1434755/10022000/take_that.jhtml> [Gwelwyd 28/07/04]

The Verve

Y mae'r grwp hwn o Brydain yn adnabyddus am eu halbwm gwerth miliynau *Urban Hymns* ac, yn arbennig, am y trac llinynnol clasurol '*Bitter Sweet Symphony'* yn 1997. Pleidleisiodd gwrandawyr Radio 1 drosti fel cân orau'r degawd. Fodd bynnag, doedd hen rocwyr y Rolling Stones ddim mor barod ag ieuenctid Prydain i'w chanmol wrth dynnu sylw fod The Verve wedi samplo un o hen ganeuon y Stones. [y we] <URL http://www.anecdotage.com/index.php?aid=15891> [Gwelwyd 28/07/04]

Daeth bechgyn Richard Ashcroft a Robbie i ben â hi yn gymharol rwydd. Cywilydd a cholli tipyn o enillion oedd eu cosb nhw ond ni fu rhai mor ffodus â hynny.

Joe Biden

Heb glywed amdano erioed o'r blaen? Oni bai fod gennych ddiddordeb mawr yn etholiadau rhagarweiniol yr Unol Daleithiau nid oes rheswm pam y dylech wybod. Fodd bynnag, dylech gofio achos Mr Bidden oherwydd ei fod yn enghraifft dda o'r hyn sy'n gallu digwydd yn sgil llên-ladrata. Yr oedd Joe (neu'r Seneddwr Biden o Delaware i roi ei deitl ffurfiol iddo) yn un o ffefrynnau'r Democratiaid i sefyll yn erbyn George W. Bush yn etholiad yr arlywydd yn 2004. Ond doedd dim gobaith ganddo oherwydd y gwarth cyhoeddus a fu yn ôl yn 1987. Cychwynnodd ei araith â'r geiriau: *"I started thinking as I was coming over here, why is it that Joe Biden is the first in his family ever to go to university? Why is it that my wife… is the first in her family ever to go to college?".* Gwaetha'r modd, yn ystod yr wythdegau cynnar, yr oedd Neil Kinnock eisoes wedi dweud yr union beth ar goedd.
O weld ei wrthwynebydd John F. Kerry yn ennill yr ymgyrch ragarweiniol yn hawdd bu'n rhaid i Joe fyfyrio ar pam yr oedd wedi colli'r cyfle i fod yn arweinydd pwerus iawn. Yn y diwedd, bydd llên-ladrata yn eich maglu fel y gallai'r Seneddwr Biden dystio.

Wedi inni gael cip ar fyd yr enwogion y mae'n bryd troi'n ôl at y byd academaidd. Gwnewch yn siwr eich bod yn darllen y gweddill o'r ddogfen hon yn fanwl oherwydd gall wneud gwahaniaeth rhwng ennill gradd dda neu ennill gradd sâl. Gall defnyddio ymarfer annheg hefyd eich rhwystro rhag ennill gradd o gwbl …

Myfyriwr X

Efallai fod myfyriwr X yn brin o amser. Ni fyddwn byth yn gwybod. Ond yr hyn yr ydym yn ei wybod yw fod myfyriwr X wedi cael gafael ar draethawd doethurol myfyriwr arall ac wedi ei gyflwyno fel ei draethawd ei hun. Ond nid oedd y goruchwyliwr yn siwr a oedd yn waith gwreiddiol a chyn pen dim daeth o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol. Yn sgil hyn dyfarnwyd myfyriwr X yn euog o ddefnyddio ymarfer annheg. Canslwyd marciau'r traethawd a chollodd myfyriwr X yr hawl i sefyll unrhyw arholiad yn y dyfodol. Dyma oedd diwedd gyrfa academaidd myfyriwr X. Mae'n gallu digwydd ac fe gewch eich dal.

---

2. Canllawiau i Ddidwylledd Academaidd

Beth yw Didwylledd Academaidd?

Er nad dyma yw'r peth mwyaf diddorol a wnewch chi yn ystod eich gyrfa academaidd y mae Didwylledd Academaidd yn gysyniad pwysig iawn. Y mae'n ymwneud â gonestrwydd ac ymddiriedaeth ac y mae'n ofynnol inni gynnal safonau moesol ac egwyddorol uchel. Felly, y mae'n ddyletswydd arnom roi cydnabyddiaeth i'r sawl sy'n ei haeddu. Yn fyr, y mae'n rhaid i'r gwaith yr ydym yn ei wneud fod yn eiddo i ni. Y mae'n rhaid cydnabod gwaith a syniadau pobl eraill lle y bo angen. A rhaid inni beidio â gwneud y canlynol:

Llên-ladrata – Y mae hyn yn digwydd pan fo darn o waith a gyflwynir i gael ei asesu yn cynnwys geiriau neu syniadau o eiddo pobl eraill na chânt eu cydnabod. Y mae'n cynnwys cyflwyno gwaith myfyriwr arall fel eich gwaith eich hun, neu syniadau neu eiriau a geir mewn gwerslyfrau, erthyglau neu ar y we, neu ar unrhyw ffurf arall. Y mae'n cynnwys gwaith a gopïwyd o'r ffynhonnell neu waith a aralleirir i ryw raddau er mwyn peri iddo edrych yn wahanol i'r ffynhonnell wreiddiol.

Cyd-dwyllo – Y mae hyn yn digwydd pan fo gwaith a wnaethpwyd ar y cyd ag eraill yn cael ei gyflwyno fel gwaith unigolyn yn unig. Wrth gydweithio y mae'n rhaid gofalu beth y gellir ei wneud ar y cyd ag eraill a beth y mae'n rhaid ei wneud ar eich pen eich hun. Tra bo'n syniad da trafod syniad ag eraill y mae'n rhaid gofalu fod y gwaith a gyflwynir yn cwrdd â'r gofynion a nodir.

Ymarfer Annheg– Diffinnir hyn yn Llawlyfr y Rheoliadau Academaidd fel “unrhyw weithred lle y gall unigolyn ennill mantais na chaniateir iddo/iddi neu i rywun arall sy’n arwain at farc neu radd uwch nag y byddai gallu’r unigolyn dan sylw wedi ei gael fel arall”. Y mae hyn yn cynnwys:

- dod â ffynonellau gwybodaeth na chaniateir i ystafell yr arholiad;
- creu canlyniadau ffug i ymchwil na ddigwyddodd, neu a ffugiwyd er mwyn ennill mantais;
- cyflwyno’r un gwaith neu waith tebyg iawn i fwy nag un asesiad;
- dynwared myfyriwr arall neu ganiatáu i rywun arall eich dynwared mewn arholiad.

Ceir rhagor o enghreifftiau yn Llawlyfr y Rheoliadau Academaidd.

Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw gofalu nad ydych yn defnyddio un o’r dulliau uchod. Fel y soniwyd eisoes byddwch yn gyfrifol am eich arferion annheg, boed y rheiny’n fwriadol ai peidio. Gwnewch yn siwr eich bod yn darllen y gweddill o’r ddogfen hon i gael deall sut i osgoi llên-ladrata a chyd-dwyllo. Gellwch ddysgu hefyd beth sy’n digwydd i’r sawl sy’n defnyddio ymarferion annheg.

3. Sut i’ch helpu eich hunan

Y ffordd orau o’ch helpu eich hunan yw datblygu sgiliau astudio da. Os llwyddwch i berffeithio eich techneg ysgrifennu traethawd bydd mwy o obaith osgoi llên-ladrata anfwriadol. Mewn gwirionedd, y mae nifer o fanteision eraill i sgiliau astudio da:

- Byddwch yn ennill gwell marciau am waith sy’n wreiddiol.
- Byddwch yn ei chael hi’n haws cwblhau gwaith academaidd.
- Byddwch yn datblygu sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.
- Byddwch yn gallu ennill marciau ychwanegol am ddefnyddio troednodiadau yn gywir a phriodol.

Ceir cyngor ar sgiliau astudio da o nifer o ffynonellau amrywiol. Bydd eich ysgol yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad ichi ar sut i ddangos y sgiliau hynny mewn gwaith i’w asesu yn eich maes chi. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ar sut i ddefnyddio dyfyniadau yn ddoeth ac yn briodol ac arweiniad ar sut i ddefnyddio ystod lawn o ffynonellau sydd bellach ar gael. Y mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn ogystal:

1. **Canllawiau sgiliau astudio mewn print** ar gael mewn llyfrgelloedd fel, Northedge A. (1990). *The good study guide*. Y Brifysgol Agored.
2. **Gweithdai sgiliau astudio** a gynhelir gan Wasanaeth Cynghori’r Brifysgol. Ceir rhagor o fanylion am y rhain ar wefan y Gwasanaeth Cynghori.
3. Y **Banc Sgiliau, Caerdydd**, adnodd ar y we a chasgliad o ddeunydd dysgu a ddyluniwyd i’ch helpu i wella eich sgiliau ym myd gwaith (gw. http://skillsbank.cf.ac.uk/default.asp).
4. Y mae canllawiau’r **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth** i’w gweld yn ‘Dyfynnu cyfeiriadau’. Y mae hwn ar gael mewn llyfrgelloedd ac ar lein ar wefan y Gwasanaethau Gwybodaeth.

Fel myfyriwr dylech geisio:

- datblygu dulliau o gymryd nodiadau sy’n defnyddio eich geiriau eich hun;
- gwneud yn siwr eich bod yn rhestru eich holl ffynonellau mewn llyfryddiaeth;
- gwneud yn siwr eich bod yn nodi cyfeiriad llawn gwefannau a ddefnyddiwyd gennych a’r dyddiad y’u gwelwyd gennych;
- paratoi aseiniadau mewn da bryd;
- defnyddio’r ystod lawn o wybodaeth a chyngor sydd ar gael ichi.

Os oes gennych amheuon neu gwestiynau gellwch eu trafod ag aelod o'r staff academaidd. Byddant yn fwy na bodlon trafod unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych am y maes hwn.

4. Canllawiau i chi

Bydd eich Ysgol hefyd yn darparu enghreifftiau penodol sy'n berthnasol i'ch maes.

Caiff y gair **llên-ladrata** ei ddefnyddio cryn dipyn yn y llyfryn hwn ond efallai nad ydych yn gwbl siwr ynghylch ei union ystyr eto. Ceir rhai enghreifftiau ffug isod i roi help llaw ichi ddeall y gwahaniaeth rhwng gwaith gwreiddiol a gwaith sy'n llên-ladrata.

Enghraifft 1

Testun Gwreiddiol	**Gwaith a Gyflwynwyd**
"Y mae ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn adlewyrchu cymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n parhau i fod yn bynciau llosg sydd heb eu datrys. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol yn yr ugeinfed ganrif." (Stokes a Northam, 1999, t.141)	Y mae ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn ddrych i gymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n bod o hyd a heb eu datrys eto. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol heddiw.

A ydyw hyn yn llên-ladrad? – YDYW. Pam? – Er bod y gwaith a gyflwynwyd uchod wedi ei aralleirio fel y mae'n wahanol mewn rhai llefydd i'r gwreiddiol y mae'r syniadau sydd yn y testun gwreiddiol wedi eu hailadrodd heb gyfeirio at y testun gwreiddiol. Y mae'r gwaith a gyflwynwyd hefyd yn cynnwys nifer o eiriau ac ymadroddion sy'n digwydd yn y fersiwn wreiddiol ond nid ydynt rhwng dyfynodau. Y mae'n hawdd gweld hefyd pa rannau sydd wedi eu newid (e.e. "yr ugeinfed ganrif" – "heddiw").

Enghraifft 2

Testun Gwreiddiol	**Gwaith a Gyflwynwyd**
"Y mae ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn adlewyrchu cymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n parhau i fod yn bynciau llosg sydd heb eu datrys. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol yn yr ugeinfed ganrif." (Stokes a Northam, 1999, t.141)	Mae llawer wedi dadlau fod llenyddiaeth yr oes Fictoraidd yn berthnasol heddiw. Y mae'n disgrifio byd sy'n newid yn gyflym ac yn adlewyrchu cymdeithas sy'n ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. (Stokes a Northam)

A ydyw hyn yn llên-ladrad? – YDYW. Pam? – Y mae'n cynnwys gwaith a godwyd o'r gwreiddiol na roddwyd rhwng dyfynodau. Y mae'n cynnwys cyfeiriad rhannol yn unig, nad yw'n cynnwys digon o fanylder i ganiatáu i'r darllenydd chwilio'r gwreiddiol. Dylai'r cyfeiriad llawn gynnwys nid yn unig enwau'r awduron ond manylion perthnasol fel dyddiad cyhoeddi a rhif(au) tudalen. Dylai'r cyfeiriad gyfeirio hefyd at gyfeiriadaeth lawn mewn llyfryddiaeth atodedig.

Enghraifft 3

Testun Gwreiddiol	Gwaith a Gyflwynwyd
"Y mae ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn adlewyrchu cymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n parhau i fod yn bynciau llosg sydd heb eu datrys. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol yn yr ugeinfed ganrif." (Stokes a Northam, 1999, t.141)	Yn eu llyfr, mae Stokes a Northam yn dadlau fod "ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn adlewyrchu cymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n parhau i fod yn bynciau llosg sydd heb eu datrys. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol." (1999, t.141)

A ydyw hyn yn llên-ladrad? – NAC YDYW. Pam? – Y mae'r darn a godwyd o'r gwreiddiol wedi ei nodi yn amlwg rhwng dyfynodau. Y mae'r awduron gwreiddiol wedi eu cydnabod, yn y cyfeiriad at eu henwau yn y testun ac yn y troednodyn.

Enghraifft 4

Testun Gwreiddiol	Gwaith a Gyflwynwyd
"Y mae ysgrifennu'r cyfnod Fictoraidd yn adlewyrchu cymdeithas a oedd yn ymdrechu dod i delerau ag amodau bywyd modern. Y mae'r rhain yn broblemau sy'n parhau i fod yn bynciau llosg sydd heb eu datrys. Gan hynny, gellid dadlau fod syniadau'r llenorion Fictoraidd yn parhau'n berthnasol a diddorol yn yr ugeinfed ganrif." (Stokes a Northam, 1999, t.141)	Fel y dadleua Stokes a Northam, y mae'r syniadau a geir mewn llenyddiaeth Fictoraidd yn berthnasol o hyd. Y mae'r ffordd y mae llenorion wedi ceisio portreadu byd sy'n newid a'r anawsterau sy'n codi drwy hynny yr un mor amserol i'n hoes ni. (Stokes a Northam 1999, t.141)

A ydyw hyn yn llên-ladrad? – NAC YDYW. Pam? – Y mae'r gwreiddiol wedi ei aralleirio i raddau helaeth ac wedi ei gydnabod yn gywir. Y mae'r gwaith a gyflwynwyd yn crynhoi dadl y gwreiddiol yn gywir. Y mae ffynhonnell y ddadl hefyd wedi ei nodi'n gywir.

---

5. Rhestru cyfeiriadau

Yr adran hon, fwy na thebyg, yw'r adran bwysicaf yn y ddogfen. Bydd yn esbonio sut i ddefnyddio troednodiadau a llyfryddiaeth. Cyn gynted ag y byddwch wedi meistroli hyn bydd marciau eich gwaith cwrs yn gwella o gryn dipyn.

Pa wybodaeth bynnag a ddefnyddir gennych mewn aseiniadau (boed yn llyfrau, erthyglau, gwefannau, negeseuon e–bost, papurau newydd a/neu ffynhonnell arall) y mae'n **RHAID** cynnwys y manylion llawn mewn troednodiadau a llyfryddiaeth. Bydd eich ysgol yn gallu rhoi gwybodaeth

ichi ar union gonfensiynau llyfryddiaethol y maes. Fodd bynnag, cynigir yr hyn a ganlyn fel cyngor cyffredinol ar sut i greu cyfeiriadaeth:

Ar gyfer llyfr: Awdur(on) neu olygydd(ion) Teitl Argraffiad (oni bai am yr argraffiad cyntaf) Rhif cyfrol (os yw'n berthnasol) Man cyhoeddi Cyhoeddwr Blwyddyn cyhoeddi	***Ar gyfer erthygl mewn cyfnodolyn:*** Awdur(on) Teitl yr erthygl Teitl y cyfnodolyn Rhif cyfrol (neu rifyn neu ddyddiad) Blwyddyn cyhoeddi Tudalen cyntaf ac olaf yr erthygl
Ar gyfer cyfraniad mewn gwaith ar y cyd: Awdur(on) Teitl y cyfraniad, i'w ddilyn gan 'yn': Golygydd(ion) y gwaith ar y cyd Teitl Argraffiad (oni bai am yr argraffiad cyntaf) Rhif cyfrol (os yw ar gael) Man cyhoeddi Cyhoeddwr Blwyddyn cyhoeddi Tudalen cyntaf ac olaf y cyfraniad, neu adran, neu bennod mewn llyfr	***Ar gyfer papur cynhadledd:*** Awdur(on) Teitl y papur, i'w ddilyn gan 'yn': Golygydd(ion) y trafodion (os yw ar gael) Teitl y trafodion neu deitl y gynhadledd a'r rhif cyfres (os yw ar gael) Man cyhoeddi Cyhoeddwr Blwyddyn cyhoeddi Tudalen cyntaf ac olaf y papur
Ar gyfer traethawd estynedig neu ddoethuriaeth: Awdur(on) Teitl Gradd (e.e. 'Ph.D.') i'w ddilyn gan 'doethuriaeth' Enw'r brifysgol Blwyddyn	***Ar gyfer cyfeiriad electronig (gan gynnwys gwefannau):*** Awdur(on) Teitl Dyddiad cyhoeddi Cyfrwng neu ffurf y ffynhonnell Lleoliad Dyddiad a welwyd

DS: Wrth ddyfynnu'n uniongyrchol o ffynhonnell gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio dyfynodau (“). Os na wnewch chi hynny y mae'n bosibl y'ch cyhuddir o lên-ladrata.
[Codwyd o: Prifysgol Caerdydd, Gwasanaethau Gwybodaeth (2003) *Citing References.* Atgynhyrchwyd gyda diolch]

---

6. Cyd-dwyllo

Y mae'n hawdd iawn osgoi cyd-dwyllo. Oni bai fod aelod o staff yn dweud wrthych am gydweithio gweithiwch ar eich pen eich hun. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes hawl gennych gydweithio y mae'n rhaid ichi ofalu mai eich gwaith eich hun yw'r gwaith a gyflwynir gennych. I roi syniad ichi o'r hyn y mae eisiau ichi ei osgoi dyma rai enghreifftiau:

Enghreifftiau:

1. Y mae dau neu ragor o fyfyrwyr yn astudio problem. Y mae un o'r myfyrwyr yn ysgrifennu'r canlyniadau a'r aelodau eraill yn copïo hynny a phob un o'r myfyrwyr yn cyflwyno'r gwaith fel ei waith ei hun.

2. Y mae dau neu ragor o fyfyrwyr yn astudio nifer o broblemau. Y mae pob myfyriwr yn gorffen rhan o'r gyfres o broblemau a osodwyd. Y mae pob myfyriwr wedyn yn cyflwyno'r gwaith i gyd fel ei waith ei hun.

3. Y mae tiwtor yn gosod problem neu dasg i'w chwblhau tu allan i'r dosbarth gan ddweud wrth bob myfyriwr am beidio â thrafod y dasg neu'r broblem. Ond y mae'r myfyrwyr yn trafod y broblem gyda'i gilydd ac yna'n cyflwyno'r gwaith yn unigol fel eu gwaith eu hunain.

Cofiwch bob amser os ydyw cyd–fyfyriwr yn cymryd eich canlyniadau ac yn eu cyflwyno caiff y ddau ohonoch eich cyhuddo o lên-ladrata. Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu nad yw myfyrwyr eraill yn gallu mynd at eich gwaith.

Beth bynnag yw'r gwaith, boed yn draethawd, yn adroddiad o'r labordy, neu'n brosiect grwp eich cyfrifoldeb chi o hyd yw cyflwyno eich gwaith eich hun, a pheidio â rhoi cyfle i'ch cyd–fyfyrwyr ddefnyddio a/neu gopïo eich gwaith.

(Addaswyd o State University of New York at Fredonia. Academic Integrity Policy [y we] <URL: http://www.fredonia.edu/ed/documents/Academic_Integrity_Policy.pdf > [Gwelwyd 3 Chwefror 2004])

---

7. Temtasiynau a Pheryglon

- **"Ond rwy'n brin o amser … "**
- **"Ond mae X wedi rhoi benthyg ei nodiadau imi … "**
- **"Ond mae gwir angen marc da arnaf yn yr asesiad … "**
- **"Ond mae pawb yn ei wneud ef … "**

Efallai y bydd adeg pan fydd hi'n demtasiwn twyllo ond a ydyw'n werth mentro? Yr ateb bob amser yw **NAC YDYW**. Y rheswm am hynny yw y cewch eich dal a'ch cosbi ac fel y crybwyllwyd uchod drwy gydol y llyfryn hwn mae'n bosibl y byddwch yn gwneud drwg annileadwy i'ch gyrfa. Dyma pam …

1. Os nad ydych wedi dysgu neu ddeall y deunydd daw hyn yn ôl i'ch poeni yn yr arholiadau, neu mewn tasgau eraill sy'n ddibynnol ar y fath wybodaeth. Nid oes diben cael marc da mewn traethawd sy'n werth 30% o'r modiwl heb wybodaeth dda ar gyfer yr arholiad sy'n werth 70%.

2. O bosibl bydd eich ymddygiad yn hudo pobl eraill i ymddwyn yn yr un modd. Sut y byddai hyn yn gwneud ichi deimlo? **Petai pawb yn twyllo pa effaith a gaiff hyn ar enw da eich gradd?** I gael enghraifft o sefyllfa debyg nid oes ond rhaid edrych ar y ras 100 medr mewn mabolgampau rhyngwladol. Bob tro y torrir record erbyn hyn y mae'r cyhoedd yn tybio fod rhyw gyffur neu'i gilydd wedi ei gymryd gan yr enillydd. Yr unig reswm am y dybiaeth hon yw fod cynifer o athletwyr wedi eu dal yn twyllo. Yr oedd yn arfer bod yn gystadleuaeth a gâi barch mawr. Erbyn hyn y mae'n dipyn o jôc.
   A ydych am i bobl feddwl yn y fath fodd am eich gradd chi?

3. Byddwch yn teimlo'n euog. Os yw clywed fod cyd–fyfyriwr wedi twyllo ac wedi dod i ben â hi yn eich cynhyrfu chi dylech ystyried beth fydd myfyrwyr eraill yn meddwl ohonoch chi petaech chi'n mynd ati i ddefnyddio ymarferion annheg. "Y mae twyllo yn dinistrio hunan–barch ac unplygrwydd; gan adael y twyllwr yn llawn cywilydd, euogrwydd a phryder o gael ei ddal … Gonestrwydd yw'r UNIG bolisi sy'n gweithio". [1]

4. Fwy na thebyg ac yn bwysicaf oll fe allech ennill gradd trwy dwyll ond, yn y pen draw, ni fydd y radd yn werth ffeuen las. Ni fydd graddio, sef uchafbwynt yr yrfa academaidd, yn golygu dim ichi a byddwch wedi gwastraffu llawer o arian ac amser.

Os ydych o dan bwysau i orffen darn o waith gellwch gael cymorth gan diwtoriaid neu gan Undeb y Myfyrwyr. Byddant yn gallu eich helpu i ymdopi. Nid oes byth esgus dros dwyllo.

1. The University of California, Davis, Student Judicial Affairs. Why Integrity Matters [y we] <URL: http://sja.ucdavis.edu/integ1.htm> [Gwelwyd 15 Rhagfyr 2003]

---

8. Beth fydd yn digwydd os cewch chi eich dal?

Y mae'r Brifysgol yn gwybod nad yw'r rhan fwyaf o ddigon o fyfyrwyr am ennill mantais annheg. Fodd bynnag, nid yw pob llên-ladrad neu ddefnydd o ddull annheg yn digwydd yn sgil ymdrech fwriadol i dwyllo ac y mae canran go sylweddol o achosion yn ymddangos yn ddamweiniol, ac yn digwydd oherwydd sgiliau astudio gwael. Ym mhob achos y mae'n anodd profi beth fu bwriad yr awdur. O'r herwydd, ac er mwyn adlewyrchu **ffydd** y Brifysgol yn ei myfyrwyr, y mae gweithdrefn Ymarfer Annheg yn pwysleisio dulliau adfer er mwyn gwella sgiliau astudio myfyrwyr.

Dylech ofalu eich bod yn gyfarwydd â rheoliadau Ymarfer Annheg y Brifysgol a dylech achub ar y cyfle i wella'r sgiliau priodol. Dylech wybod hefyd y gall gwaith a gyflwynir gael ei gyflwyno i gronfa ddata i weld a oes llên-ladrad neu gyd-dwyllo wedi digwydd. Yn olaf, dylech gofio fod y gosb am dwyllo dro ar ôl tro ac am lên-ladrata bwriadol neu ddifrifol yn llym.

---

9. Cyngor a Chymorth

Os ydych am wneud ymholiadau mewn perthynas â didwylledd academaidd ewch i weld eich tiwtor academaidd a/neu eich tiwtor personol yn gyntaf. Byddant yn gallu rhoi cyngor ichi a'ch cynorthwyo.

Y mae nifer o brifysgolion eraill yn cynnig cyngor a chanllawiau i fyfyrwyr yn y maes hwn yn ogystal. Dyma ddetholiad:

- Cornell University. Code of Academic Integrity [y we] <URL: http://cuinfo.cornell.edu/Academic/AIC.html> [Gwelwyd 28/07/04]

- Purdue University Online Writing Lab. Avoiding Plagiarism [y we] <URL: http://owl.english.purdue.edu/handouts/print/research/r_plagiar.html> [Gwelwyd 28/07/04]

- State University of New York at Fredonia. Academic Integrity Policy [y we] <URL: http://www.fredonia.edu/ed/documents/Academic_Integrity_Policy.pdf > [Gwelwyd 28/07/04]

- The University of Bradford, Academic Standards and Support Unit. Statement on Academic Integrity [y we] <URL: http://www.brad.ac.uk/admin/acsec/assu/statement_on_academic_integrity.htm> [Gwelwyd 28/07/04]

- The University of California, Davis, Student Judicial Affairs. Why Integrity Matters [y we] <URL: http://sja.ucdavis.edu/integ1.htm> [Gwelwyd 28/07/04]

Cyn ichi gyflwyno … gwnewch yn siwr

Datblygwyd ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar ran y Gweithgor Llên-ladrad ac Ymarfer Annheg, 2004.